

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 21

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Jane Hutt AS

Cc: Comisiynydd Plant Cymru
Sally Holland

31 Ionawr 2022

Amcangyfrif Cyllideb Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2022-23

Annwyl Jane,

Mae Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd") wedi ysgrifennu at y ddwy ohonom yn nodi ei phryderon ynghylch setliad cyllidebol ei swyddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, a'r setliad a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Roedd y Comisiynydd wedi atodi i'w llythyr yr amcangyfrif statudol ar gyfer y gyllideb a gyflwynwyd gan ei swyddfa i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021.

Mae'r llythyr yn nodi bod y Comisiynydd wedi gofyn am gyfanswm o £1,695,765 o ran y gyllideb adnoddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, cyfanswm o £1,652,444 ar gyfer 2023-24, a chyfanswm o £1,662,001 ar gyfer 2024-25. Fodd bynnag, gwrthododd Llywodraeth Cymru yr amcangyfrif hwnnw, gyda chyllideb adnoddau o £1,580,000 yn cael ei chynnig ar gyfer 2022-23, "a 'chyllideb wastad' yn cael ei chynnig ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn ogystal." Mae'r Comisiynydd yn nodi ei phryderon ynghylch cyllideb arfaethedig Llywodraeth Cymru, gan ychwanegu ei bod wedi "gofyn i'r Llywodraeth am ymateb terfynol ynghylch sut gwnaed y penderfyniad i barhau i ddarparu'r un setliad ag mewn blynyddoedd blaenorol yn ystod cyfnod pan fo costau tu allan i reolaeth y swyddog cyfrifyddu yn codi."

Nid yw'n briodol inni wneud sylwadau am yr union lefelau o gyllid y mae Comisiynydd Plant Cymru yn eu cael gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n briodol ychwaith inni gymryd camau ar ran unrhyw gomisiynydd, oni bai ein bod yn dymuno gwneud hynny.

Senedd Cymru



Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament



Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Fodd bynnag, rydym yn pryderu am oblygiadau posibl setliad cyllidebol y Comisiynydd mewn perthynas â phlant a hawliau plant. Yn benodol, mae'r Comisiynydd yn honni y bydd y setliad arfaethedig:

- yn cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i bennu rhaglen waith annibynnol sy'n cwmpasu'r holl feysydd sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw, a chyflawni cylch gorchwyl cyfreithiol y swydd;
- yn amharu ar allu swyddfa'r Comisiynydd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ran plant, gyda'r nod o hyrwyddo hawliau plant, yn enwedig os yw, yng ngeiriau'r Comisiynydd, yr "arbenigedd o fewn y Llywodraeth i gyflawni rôl arbenigol o'r fath yn gyfyngedig"; ac
- yn cael effaith negyddol ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei Rhaglen Lywodraethu i'r graddau y mae'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

1. egluro pam y gwrthododd Llywodraeth Cymru amcangyfrif y Comisiynydd ar gyfer y gyllideb;
2. rhannu gyda'r Pwyllgor yr Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd mewn perthynas â'ch penderfyniad; a
3. rhoi sicrwydd inni, mewn perthynas â phob un o'r tri phwynt bwled uchod, na fydd eich setliad arfaethedig ar gyfer y gyllideb yn cael effaith andwyol ar allu'r Comisiynydd Plant newydd i gyflawni ei rôl statudol a'i rolau eirioli a chynghori ehangach.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb atom erbyn dydd Llun 28 Chwefror fan bellaf.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gomisiynydd Plant Cymru.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS



Jenny Rathbone AS



Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

